Legal Aid Agency

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Ffurflen asesiad ariannol

Ar gyfer pobl sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Gredyd Gwarant neu Credyd Cynhwysol (Braenaru).

**SYLWER: Fe all y bydd raid i chi ad-dalu'ch costau cyfreithiol o arian neu eiddo, a gadwyd neu a enillwyd, o ganlyniad i'ch achos.**
**Mae gwneud datganiad ffug yn drosedd. Pe'ch delir yn gwneud hynny, gallwch gael eich erlyn a bydd rhaid i chi ad-dalu'ch costau yn llawn.**

- Llenwch y ffurflen hon os ydych chi, eich partner (neu os ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall, y person hwnnw neu ei bartner) yn derbyn unrhyw rai o fudd-daliadau'r wladwriaeth a restrir uchod. Peidiwch â llenwi'r ffurflen hon os yr unig fudd-daliadau rydych chi neu'ch partner yn eu cael yw Credyd Treth Gwaith neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau. Llenwch ffurflen CIVMODD1 yn lle hynny.
- Mae 'partner' yn golygu rhywun rydych yn briod ag ef/hi neu rywun rydych yn byw ag ef/hi fel cwpwl.
- Rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon neu fe gaiff ei gwrthod. Byddwn yn gwirio'r wybodaeth a rowch gyda'r swyddfa fudd-daliadau.
- **Os ydych yn gwneud cais am Gymorth Cyfreithiol, rhaid i chi anfon y ffurflen hon atom o fewn dau fis o'i harwyddo. Fel arall, byddwn yn gwrthod eich cais. Rhaid i chi adrodd newidiadau yn eich amgylchiadau ariannol cyn gynted ag y bo modd. Rhaid llenwi'r ffurflen hon mewn inc.**

## Rhoi gwybod bod eich amgylchiadau wedi newid

Os ydych chi'n cael Cymorth Cyfreithiol eisoes a bod eich amgylchiadau ariannol wedi newid, fe ddylech ddefnyddio'r ffurflen hon i roi gwybod inni am hynny:

Eich cyfeirnod cymorth cyfreithiol: ______________________

Beth yw'r newid (ticiwch y blwch perthnasol isod):

- ☐ Rwyf yn awr yn cael un o'r budd-daliadau pasport sydd wedi'u rhestru ar ben y ffurflen hon.
- ☐ Rwy'n rhoi gwybod ichi am newid mewn cyfalaf (rwy'n dal i gael un o'r budd-daliadau pasbort).

Os nad ydych chi'n cael un o'r budd-daliadau pasbort bellach, llenwch ffurflen CIVMODD1 yn lle hon.

Llenwch weddill y ffurflen hon yn awr.

| | Chi | Eich partner |
|---|---|---|
| Cyfenw: | | |
| Cyfenw gwreiddiol: | | |
| Enwau Eraill: | | |
| Dyddiad geni: | | |
| Cyfeiriad cartref: (Rhaid ichi roi'r cyfeiriad lle y byddwch chi'n byw fel rheol) | | |
| Cod Post: | | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd: | | |
| Rhif ffôn symudol: | | |
| Rhif Yswiriant Gwladol: | | |
| Cyfeiriad e-bost: | | |

Cyfeiriad lle y gallwn ni gysylltu â chi os nad ydych chi am inni ddefnyddio'ch cyfeiriad cartref:

______________________


© Hawlfraint y Goron

Pa fudd-dal sy'n cael ei dderbyn?
(Ticiwch y blwch perthnasol)

☐ Cymhorthdal Incwm
☐ Lwfans Cyflogaeth a Chynnal ar sail Incwm.
☐ Credyd Gwarant.
☐ Credyd Cynhwysol (Braenaru).
☐ Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm

Pwy sy'n derbyn y budd-dal?
(Ticiwch y blwch perthnasol)

☐ Chi
☐ Eich partner
☐ Rhywun arall: nodwch enw llawn os gwelwch yn dda a rhif yswiriant gwladol ____________________
____________________

Beth yw cyfeiriad llawn y swyddfa Nawdd Cymdeithasol neu'r Ganolfan Gwaith sy'n talu'r budd-dal? **Rhaid i chi ddweud hyn wrthym i'n helpu ni i wirio'r wybodaeth a roddwyd yn y cais hwn.**

Os nad ydych chi'n gweithio ar hyn o bryd, beth oedd eich swydd ddiwethaf? ______________________________

Pryd gwnaeth y person dderbyn budd-dal gyntaf? 4 ____/____/____

Darllenwch a llofnodwch y datganiad ar dudalen 16.

## Pobl eraill

1. Rhowch fanylion am bawb sy'n byw yn eich cartref ar wahân i chi a'ch partner. **Cynhwyswch eich plant ac unrhyw oedolion eraill (hyd yn oed os nad ydynt yn perthyn i chi).**

| **Ei enw/henw** | **Dyddiad geni** | **Perthynas â chi** | **Ydyn nhw'n gweithio amser llawn?** | | **Mewn addysg amser llawn?** | | **Os mewn addysg llawn amser, cyfanswm unrhyw fenthyciad/grant a dderbyniwyd?** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Ydyn** | **Nac ydyn** | **Ydyn** | **Nac ydyn** | |
| ____________ | ___/___/___ | ____________ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | £ ________ |
| ____________ | ___/___/___ | ____________ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | £ ________ |
| ____________ | ___/___/___ | ____________ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | £ ________ |
| ____________ | ___/___/___ | ____________ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | £ ________ |

A oes unrhyw un arall yn rhoi help ariannol i chi neu i'ch partner?

4 **Fe all hwn fod yn rhywun (er enghraifft, unigolyn, cronfa ymddiriedolaeth, cwmni neu gorff arall) sy'n caniatáu ichi ddefnyddio asedau/arian. Dylech hefyd gynnwys manylion pob cyfandaliad cyfalaf, gan gynnwys benthyciadau a roddwyd ichi. Os derbynioch gefnogaeth yn y gorffennol sydd bellach wedi dod i ben, ticiwch 'Oes' a rhowch y manylion isod.**

☐ Nac oes: ewch yn syth i'r adran Gyfalaf ar dudalen 3.

☐ Oes: rhowch y manylion ar dudalen 3:

| **Cwmni neu berson** | **Y math o gefnogaeth a dderbyniwyd** | **Beth fu gwerth hyn i chi ym mhob un o'r 3 blynedd diwethaf? Dechreuwch gyda'r 12 mis diwethaf.** |
|---|---|---|
| ______________ | ______________ | 1. ______ 2.______ 3.______ |
| ______________ | ______________ | 1. ______ 2.______ 3.______ |
| ______________ | ______________ | 1. ______ 2.______ 3.______ |

4 Efallai y bydd adnoddau ariannol rhywun sy'n darparu cymorth ariannol i chi neu'ch partner yn berthnasol i'ch cais. Mae'n bosib y gofynnir am wybodaeth bellach, gan gynnwys gofyn i'r unigolyn/person perthnasol lenwi CIVMODD1.

## Cyfalaf ac asedau eraill.

C1

C2

1. Oes gennych chi neu'ch partner un o'r canlynol:-

| | Oes | Nac Oes |
|---|---|---|
| Cyfrifon cyfredol banc | ☐ | ☐ |
| Cyfrifon cynilo banc | ☐ | ☐ |
| Cyfrifon Cymdeithas Adeiladu | ☐ | ☐ |
| Cyfrifon Cynilo Unigol (ISA) | ☐ | ☐ |
| Cynilion Cenedlaethol/Cyfrifon Swyddfa'r Post | ☐ | ☐ |
| Cyfrifon eraill | ☐ | ☐ |
| Arian parod gartref | ☐ | ☐ |

Os ateboch OES i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, rhowch fanylion isod:-

| **Enw'r Banc/ Cymdeithas Adeiladu** | **Enw deiliad y cyfrif** | **Rhif y cyfrif** | **Math o gyfrif e.e. cyfrif cyfredol, cyfrif cadw, ISA** | **Gweddill presennol** | |
|---|---|---|---|---|---|
| ______ | ______ | ______ | ______ | £______ | ☐ |
| ______ | ______ | ______ | ______ | £______ | ☐ |
| ______ | ______ | ______ | ______ | £______ | ☐ |
| ______ | ______ | ______ | ______ | £______ | ☐ |

4 **Dangoswch i ba gyfrif y telir eich cyflog, budd-daliadau neu gredydau treth trwy dicio'r blwch ar ben y rhes.**

4 **Dylech gynnwys manylion unrhyw gyfrifon cynilo a agorwyd ar gyfer eich plant sy'n ddibynyddion.**

4 **Darparwch ddatganiadau am y 3 mis diwethaf ar gyfer pob banc/ cymdeithas adeiladu/unrhyw gyfrif ariannol arall a ddelir. Mae'n rhaid i'r datganiadau fod yn rhai gwreiddiol, ffotocopïau a ardystiwyd gan gyfreithiwr neu allbrintiau bancio ar y rhyngrwyd (ar gyfer e-gyfrifon "di-bapur") sy'n dangos yr enw a rhif y cyfrif.**

C3

2. Os ateboch OES i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, rhowch fanylion isod:-

| | Oes | Nac oes | Gwerth cyfredol |
|---|---|---|---|
| Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol | ☐ | ☐ | £______ |
| Bondiau Premiwm | ☐ | ☐ | £______ |
| Bondiau Cyfalaf | ☐ | ☐ | £______ |
| Stociau a Chyfranddaliadau | ☐ | ☐ | £______ |
| Unrhyw fath arall o gynilion | ☐ | ☐ | £______ |

4 **Darparwch dystiolaeth ar gyfer pob buddsoddiad a ddangosir uchod e.e. tystysgrifau cyfranddaliadau ayyb.**

## Cyfalaf ac asedau eraill **parhad**

3. A oes gennych unrhyw eiddo gwerthfawr (sy'n werth mwy na neu sy'n gyfwerth â £500) e.e. gemwaith, peintiadau, eitemau casgladwy, ceffylau neu gychod?

Oes ☐ Nac oes ☐

Os ateboch OES, rhowch fanylion isod:-

| **Beth yw'r eitemau hyn** | **Pris gwerthu'r eitemau hyn** |
| --- | --- |
| ____________________ | £____________ |
| ____________________ | £____________ |
| ____________________ | £____________ |

4. Ydych chi neu'ch partner yn berchen ar yr eiddo lle rydych yn byw, neu a oes gennych fuddiant ariannol ynddo?

☐ Nac oes: ewch at gwestiwn 8 ar dudalen 5. ☐ Oes: dywedwch wrthym

Gwerth marchnad cyfredol yr eiddo lle rydych yn byw: £ ____________________

Os gwelwch yn dda ticiwch y blwch sy'n berthnasol i chi a'ch partner:

☐ Delir yr eiddo yn fy enw i neu yn enw fy mhartner yn unig. Nodwch os gwelwch yn dda pwy sy'n berchen ar y gweithredoedd: ____________________

☐ Delir yr eiddo ar y cyd yn ein henwau ni'n dau. Rwy'n berchen ____________ %
Fy mhartner yn berchen ar ____________ %

☐ Mae gennyf bridiant ar yr eiddo. Gwerth cyfredol eich pridiant £ ____________

4 Peidiwch â chynnwys yma unrhyw fanylion sy'n ymwneud ag eiddo a ddelir gan y gwrthwynebydd yn yr achos

5. Beth yw'r cyfanswm sy'n ddyledus ar unrhyw forgais neu fenthyciadau a sicrhawyd ar y ty lle rydych chi'n byw?
£ ____________________

Oes unrhyw bolisïau gwaddol sy'n gysylltiedig â'r morgais hwn? ☐ Oes ☐ Nac oes

4 Amlygwch eich taliadau morgais ar eich datganiad banc. Os nad ydynt yn ymddangos ar eich datganiadau banc, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth arall sy'n dangos taliadau diweddar (e.e. datganiadau morgais).

6. Dywedwch wrthym a yw'r eiddo yn

☐ Dy ar Wahân ☐ Lled-wahanedig ☐ Ty Teras ☐ Ty Unllawr ☐ Fflat/Fflat Deulawr

7. Nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo ____________

# Cyfalaf ac asedau eraill **parhad**

8. Ydych chi neu'ch partner yn berchen ar unrhyw eiddo, tir neu eiddo cyfran amser, neu a oes gennych fuddiant ariannol mewn unrhyw eiddo, tir neu eiddo cyfran amser, ar wahân i le rydych chi'n byw?

4 Ticiwch ydw i'r cwestiwn hwn os oes gennych fuddiant o hyd mewn cyn gartref priodasol ond eich bod yn byw yn rhywle arall nawr.

Ydw/ydy ☐ Nac ydw/nac ydy ☐

Os ateboch YDW/YDY, rhowch fanylion isod:-

| **Ei gyfeiriad** | **Gwerth ar y farchnad** | **Cyfanswm unrhyw forgais neu fenthyciad** | **Sut ydych chi'n defnyddio'r eiddo e.e. ydych chi'n ei rentu neu'n byw ynddo am ran o'r amser?** | **Pa gyfran ydych chi a'ch partner yn berchen arni?** |
|---|---|---|---|---|
| ______ | £ ______ | £ ______ | ______ | ______ |
| ______ | | | ______ | |
| ______ | £ ______ | £ ______ | ______ | ______ |
| ______ | | | ______ | |

9. Oes gennych chi neu'ch partner unrhyw bolisïau yswiriant bywyd neu waddol **nad ydynt yn gysylltiedig** â morgais? Peidiwch â chynnwys polisïau sydd ond yn talu wedi marwolaeth. C5

Oes ☐ Nac oes ☐

Os ateboch OES, rhowch fanylion isod:-

| **Pryd gychwynnwyd y polisi?** | **Beth yw gwerth y benthyciad?** | **Beth yw'r gwerth ildio?** |
|---|---|---|
| ______ | £ ______ | £ ______ |
| ______ | £ ______ | £ ______ |

4 **Mae gan bob polisi gwaddol werth ildio a gwerth y bydd y cwmni'n ei fenthyca yn erbyn y polisi. Bydd angen i chi gysylltu â darparwr eich polisi i gael y gwerthoedd hyn.**

10. A ydych chi neu eich partner yn cael defnyddio car neu gerbyd arall sy'n eiddo i rywun arall?

Ydw/Ydy ☐ Nac ydw/nac ydy ☐

Os ateboch YDW/YDY, rhowch fanylion isod:-

| **Pwy sy'n berchen ar y car?** | **Eu perthynas â chi?** |
|---|---|
| ______ | ______ |

11. A ydych chi neu eich partner yn berchen ar gar neu gerbyd arall? Ydw/ydy ☐ Nac ydw/nac ydy ☐ C6

Os ateboch YDW/YDY, rhowch fanylion isod:-

| **Y gwneuthuriad a'r model** | **Y rhif cofrestru** | **Y pris prynu** | **Benthyciad sy'n ddyledus** | **Dyddiad prynu** |
|---|---|---|---|---|
| ______ | ______ | £ ______ | £ ______ | ___/___/___ |
| ______ | ______ | £ ______ | £ ______ | ___/___/___ |
| ______ | ______ | £ ______ | £ ______ | ___/___/___ |

## Cyfalaf ac asedau eraill **parhad**

12. Oes arian yn ddyledus i chi neu eich partner (e.e. gallai hyn gynnwys tâl diswyddo a delir i chi)?

Oes ☐ Nac oes ☐

13. Ydych chi neu'ch partner wedi derbyn, neu ydych chi'n debygol o dderbyn, unrhyw beth o ewyllys rhywun sydd wedi marw, neu o gronfa ymddiriedolaeth? C7

Ydw/ydy ☐ Nac ydw/nac ydy ☐

14. Ydych chi neu'ch partner wedi trosglwyddo, gwerthu, neu roi unrhyw arian, eiddo neu feddiannau i unrhyw un arall (gan gynnwys unrhyw gwmni neu gorff) ers i chi ddod yn ymwybodol bod yr achos hwn yn debygol o ddigwydd?

Ydw/ydy ☐ Nac ydw/nac ydy ☐

15. Ydych chi neu'ch partner wedi prynu unrhyw beth neu wedi talu swm o arian, gwerth mwy na £2,500, yn ystod y 12 mis diwethaf?

Ydw/ydy ☐ Nac ydw/nac ydy ☐

16. Oes gennych chi neu'ch partner unrhyw gyfalaf neu asedau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adran hon?

Oes ☐ Nac oes ☐

**Os ydych chi wedi ateb YDW/YDY/OES i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, rhowch fanylion llawn isod:-**

17. Ydych chi neu'ch partner yn destun gorchymyn methdaliad?

Ydw/ydy ☐ Nac ydw/nac ydy ☐

4 **Os YDYCH, atodwch gopi o'r gorchymyn a'r rhestr ddiweddaraf o asedau a rhwymedigaethau. Bydd hyn yn cyflymu prosesu eich cais.**

18. Oes gennych chi neu'ch partner unrhyw incwm, cyfalaf neu asedau sy'n destun gorchymyn rhewi, fel na allwch eu defnyddio?

Oes ☐ Nac oes ☐ Ewch i gwestiwn 20, os gwelwch yn dda.

4 **Os ateboch YDW/YDY, atodwch gopi o'r gorchymyn. Bydd hyn yn cyflymu prosesu eich cais**

19. A wnaed cais i gymhwyso (neu ailgymhwyso) i ddiddymu neu amrywio'r gorchymyn rhewi?

Do ☐ Naddo ☐

Os DO, darparwch gopi o'r cais a'r gorchymyn a ddiwygiwyd, fel sy'n berthnasol.

20. Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym unrhyw beth y mae angen i ni ei wybod nad ydyw ar y ffurflen hon eisoes, fel unrhyw newidiadau tebygol.

Oes ☐ Nac oes ☐

Os OES, rhowch fanylion isod:-

## Hunangyflogaeth, partneriaethau a swyddi cyfarwyddwr

A8

**Rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon**
**Peidiwch â rhoi llinell drwyddynt nac ysgrifennu 'ddim yn berthnasol'**

1. Ydych chi'n hunangyflogedig?

4 Yr hyn rydym ni'n ei olygu wrth hunangyflogedig yw unrhyw un sy'n gysylltiedig â chrefft, proffesiwn neu alwedigaeth fel unig fasnachwr (h.y. chi yn unig sy'n berchen ar y busnes ac ar ei elw). Mae hyn yn cynnwys unrhyw un y mae'n ofynnol iddo lenwi ffurflen dreth hunanasesiad fel person hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un y mae'n rhaid iddo, fel person hunangyflogedig, lenwi ffurflen hunanasesu Cyllid y Wlad. Os ydych chi'n gweithredu mewn partneriaeth â rhywun arall (h.y. rydych chi'n rhannu perchnogaeth y busnes a'i elw gydag un neu fwy o bobl eraill) dylech roi'r ateb nac ydw i'r cwestiwn hwn a chyfeirio at gwestiwn 2.

| chi | eich partner |
|---|---|
| ☐ Nac Ydw: ewch i gwestiwn 2 | ☐ Nac Ydw: ewch i gwestiwn 2 |
| ☐ Ydw: dywedwch wrthym ni | ☐ Ydw: dywedwch wrthym ni |
| Sawl gwahanol ffurf ar hunangyflogaeth sydd gennych? ____________ | Sawl gwahanol ffurf ar hunangyflogaeth sydd gennych? ____________ |

4 **Llenwch ffurflen atodol CIVMODD2A (ar gael oddi wrth eich cyfreithiwr) ar gyfer pob crefft, proffesiwn neu alwedigaeth rydych chi'n gysylltiedig â nhw a'u hatodi at y ffurflen hon. Mae gofyn am ffurflen CIVMODD2A hyd yn oed os nad ydych chi'n masnachu ar hyn o bryd, oni bai eich bod chi wedi dirwyn y busnes i ben.**

## Hunangyflogaeth, partneriaethau a swyddi cyfarwyddwr parhad

2. Ydych chi'n bartner mewn partneriaeth fusnes?

4 **Yr hyn rydym ni'n ei olygu wrth bartneriaeth fusnes yw unrhyw un sy'n ymwneud â chrefft, proffesiwn neu alwedigaeth sy'n cael ei weithredu mewn partneriaeth â rhywun arall (h.y. rydych chi'n rhannu perchnogaeth y busnes a'i elw gydag un neu fwy o bobl eraill) ond nid yw'r busnes wedi'i ymgorffori'n gwmni. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un y mae'n rhaid iddo, fel partner, lenwi ffurflen hunanasesu Cyllid y Wlad. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un y mae'n ofynnol iddo lenwi ffurflen dreth hunanasesiad fel partner.**

**Dylech roi'r ateb 'ydw' i'r cwestiwn hwn hyd yn oed os ydych chi'n bartner segur (h.y. nid ydych chi'n ymwneud â'r bartneriaeth yn weithredol, ond bod hawl gennych i gyfran o'r busnes a'i elw).**

| **chi** | **eich partner** |
|---|---|
| ☐ Nac Ydw: ewch i gwestiwn 3 | ☐ Nac Ydw: ewch i gwestiwn 3 |
| ☐ Ydw: dywedwch wrthym ni | ☐ Ydw: dywedwch wrthym ni |
| Sawl partneriaeth sydd gennych?_____________ | Sawl partneriaeth sydd gennych?_____________ |

4 **Llenwch ffurflen atodol CIVMODD2A yn ogystal (ar gael oddi wrth eich cyfreithiwr) ar gyfer pob partneriaeth rydych chi'n gysylltiedig â hi a'i hatodi at y ffurflen hon. Dylid llenwi ffurflen CIVMODD2A hyd yn oed os nad yw partneriaeth yn masnachu ar hyn o bryd, oni bai bod y bartneriaeth wedi cael ei diddymu.**

3. Ydych chi'n gyfranddaliwr mewn cwmni cyfyngedig preifat a/neu yn gyfarwyddwr cwmni?

4 **Yr hyn rydym ni'n ei olygu wrth gyfarwyddwr cwmni yw unrhyw un sydd wedi'i gofrestru'n gyfarwyddwr corff/cwmni corfforedig (ac eithrio elusennau), p'un a ydynt yn dal cyfranddaliadau yn y corff/cwmni hwnnw ai peidio.**

| **chi** | **eich partner** |
|---|---|
| ☐ Nac Ydw: ewch i gwestiwn 4 | ☐ Nac Ydw: ewch i gwestiwn 4 |
| ☐ Ydw: dywedwch wrthym ni | ☐ Ydw: dywedwch wrthym ni |
| Faint o gwmnïau ydych chi'n gyfarwyddwr neu'n gyfranddaliwr arnynt?_____________ | Faint o gwmnïau ydych chi'n gyfarwyddwr neu'n gyfranddaliwr arnynt?_____________ |

4 **Bydd angen i chi ofyn i gyfrifydd y cwmni lenwi ffurflen atodol CIVMODD1C (ar gael oddi wrth eich cyfreithiwr) ar gyfer pob swydd cyfarwyddwr rydych chi'n ei dal. Dylid llenwi CIVMODD1C hyd yn oed os yw'r cwmni'n segur (h.y. nid oes ganddo unrhyw drafodion cyfrifo arwyddocaol). Dylid atodi'r CIVMODD1C(au) wedi'u llenwi a'r cyfrifon cysylltiol at y ffurflen hon.**

## Hunangyflogaeth, partneriaethau a swyddi cyfarwyddwr **parhad**

4. A ydych wedi cyflwyno ffurflen dreth hunanasesiad o ran eich incwm ers i chi gychwyn eich hunangyflogaeth, partneriaeth, swydd cyfarwyddwr a/neu ddal cyfranddaliadau?

**chi**

☐ Nac ydw: dywedwch wrthym ni pryd rydych chi'n disgwyl cyflwyno ffurflen / /
(ewch ymlaen i'r adran "Ynglyn â'ch achos" isod)

☐ Ydw: dywedwch wrthym

Dyddiad y cyflwyniad mwyaf diweddar / /

Enw'r Swyddfa Dreth ____________________

Dyddiad cyflwyno'r ffurflen nesaf / /

**eich partner**

☐ Nac ydw: dywedwch wrthym ni pryd rydych chi'n disgwyl cyflwyno ffurflen / /
(ewch ymlaen i'r adran "Ynglyn â'ch achos" isod)

☐ Ydw: dywedwch wrthym

Dyddiad y cyflwyniad mwyaf diweddar / /

Enw'r Swyddfa Dreth ____________________

Dyddiad cyflwyno'r ffurflen nesaf / /

## Ynglyn â'ch achos - Am beth y mae'r anghydfod?

C9

Ymgynghorwch â'ch Cyfreithiwr cyn ateb y cwestiynau hyn.

Rhestrwch unrhyw eiddo, asedau neu feddiannau rydych chi neu'ch gwrthwynebydd wedi'u hawlio yn ystod eich achos.

4 Cynhwyswch gyfeiriad unrhyw eiddo a manylion penodol unrhyw asedau eraill y ceir anghydfod yn eu cylch. Nid ydym ni'n cymryd ystyriaeth o eiddo y ceir anghydfod yn ei gylch ar gychwyn yr achos, lle nad yw eich buddiant yn yr asedau hyn yn fwy na £100,000, ond os ydych chi'n ei ennill neu'n ei gadw, gallwn gymryd costau eich achos allan ohono, gyda llog.

## Yswiriant

1. Oes gennych yswiriant cynnwys / adeiladu / moduro / arall?

Oes ☐ Ewch i gwestiwn 2    Nac oes ☐ Ewch i'r adran nesaf

2. Ydy'r polisi'n cynnwys yswiriant o ran ffioedd cyfreithiol?

Ydy ☐    Nac ydy ☐

Os YDY, rhowch fanylion:-

**Os nad ydych chi'n siwr a yw eich polisi'n cynnwys ffioedd cyfreithiol, cyfeiriwch ef at eich cyfreithiwr i'w wirio.**

## Gwybodaeth ychwanegol na ddarparwyd eisoes ar y ffurflen hon

D1

4 Os ydych chi'n ymwybodol o ddigwyddiad a fydd yn newid eich amgylchiadau ariannol yn ystod y 12 mis nesaf, rhaid i ni wybod dyddiad y digwyddiad hwnnw a sut y bydd yn newid eich amgylchiadau. Efallai eich bod yn mynd i roi genedigaeth i blentyn (bydd angen i ni wybod dyddiad disgwyliedig yr enedigaeth) neu y byddwch yn ymddeol, neu eich bod yn gwybod y byddwch yn cychwyn mewn swydd newydd.

## ASIANTAETH CYMORTH CYFREITHIOL

## HYSBYSEB PREIFATRWYDD

### Pwrpas

Mae'r hysbyseb preifatrwydd yma yn gosod allan y safonau y gellir disgwyl gael gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol pan fydden ni'n gofyn am neu dal ar wybodaeth bersonol ('data personol') amdanoch; sut byddech chi yn gallu cael copi o'ch data personol; a beth allwch chi wneud os nad ydy'r safonau yn cael eu cyrraedd.

Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn asiantaeth weithredol o'r Weinidogaeth Cyfiawnder (GC). GC yw rheolydd data ar gyfer y wybodaeth bersonol rydym yn dal. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn casglu a phrosesu data personol ar gyfer ymarfer eu swyddogaethau cyhoeddus cysylltiedig. Ein swyddogaeth gyhoeddus yw darparu cymorth cyfreithiol.

### Am dan wybodaeth bersonol

Mae data personol yn wybodaeth amdanoch chi fel unigolyn. Gall fod eich enw, cyfeiriad neu rif ffôn. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth a ddarparwyd yn eich cais am gymorth cyfreithiol megis eich amgylchiadau ariannol a gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw achos cyfreithiol cyfredol neu flaenorol sydd yn eich parthed.

Rydym y gwybod pwysigrwydd diogelu preifatrwydd cwsmeriaid ag i gydymffurfio gyda deddfau diogelu data. Mi wnawn i amddiffyn eich data personol a dim ond datgelu lle bu yn gyfreithiol i wneud, neu hefo eich caniatâd.

### Mathau gwahanol o ddata personol rydym yn prosesu

Rydym ond yn prosesu data personol sydd yn berthnasol i'r gwasanaethau rydym yn darparu i chi. Bydd y data personol y byddech chi'n darparu yn eich cais am gymorth cyfreithiol ond yn cael eu defnyddio ar gyfer y pwrpasau isod.

### Pwrpas prosesu a sail gyfreithlon ar gyfer prosesu

Pwrpas pan fod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn casglu a phrosesu'r data personol byddech chi yn darparu drwy lenwi'r ffurflen hon yw ar gyfer galluogi darparu cymorth cyfreithiol. Ein sail gyfreithlon yw 'cyflawni perfformiad unrhyw dasg of fewn diddordeb y cyhoedd neu ar gyfer awdurdod swyddogol' fel y nodir yn Erthygl 6(1) o GDPR y DU. Y tasgau yw'r rheini nodir yn Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Chosbi a dedfrydu Troseddwyr 2012.Yn benodol, byddwn ni yn defnyddio eich data personol fel a ganlyn:

- Penderfynu os ydych yn gymwys i gymorth cyfreithiol, ai byddech yn gorfod talu cyfraniad tuag at gostau cymorth cyfreithiol ac i gynorthwyo'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gasglu'r cyfraniadau, os yw'n briodol.

- Asesu hawliadau eich darparwr(wyr) cyfreithiol ar gyfer taliadau o gronfa cymorth gyfreithiol am y gwaith maent wedi ei gynnal ar eich cyfer.

- Wrth gynnal archwiliadau sicrwydd cyfnodol ar ffeiliau cymorth cyfreithiol i sicrhau bod penderfyniadau wedi'u gwneud yn gywir.

- Cynhyrchu ystadegau a gwybodaeth ar ein prosesau i alluogi ni i wella ein prosesau ac i gynorthwyo ni i ddarparu ein swyddogaethau.

Pe bai'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn methu casglu'r wybodaeth bersonol, ni fydden yn gallu arwain y gweithgareddau uchod, sydd yn golygu na fydden ni'n gallu darparu cymorth cyfreithiol i chi.

Rydym yn casglu 'categorïau arbennig o ddata personol'. Cesglir y data hwn lle bo angen at y dibenion a nodir uchod. Yr amod ar gyfer prosesu'r data hwn yw Erthygl 9(g) o GDPR y DU – Rhesymau o fudd cyhoeddus sylweddol. Mae ein hamod Atodlen 1 cysylltiedig at ddibenion Statudol a Llywodraethol. Rydym hefyd yn casglu'r data hwn at ddibenion monitro cydraddoldeb. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd categorïau arbennig o ddata personol yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol ac ni fydd unrhyw wybodaeth a gyhoeddir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn eich adnabod chi, neu unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'ch cais am gymorth cyfreithiol.

Rydym yn casglu 'data personol yn ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau neu fesurau diogelwch eraill'. Cesglir y data hwn lle bo'n berthnasol at y dibenion a nodir uchod. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn Asiantaeth Weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n Awdurdod Swyddogol at ddibenion Erthygl 10 GDPR y DU.

## Gyda phwy gall y wybodaeth gael eu rhannu hefo

Weithiau, bydden ni angen rhannu'r wybodaeth bersonol rydym ni'n prosesu gyda sefydliadau eraill. Pan fydd hyn yn angenrheidiol, bydden ni'n cydymffurfio gyda holl agweddau sydd yn berthnasol i ddeddfau diogelu. Gall y sefydliadau y gallwn rannu eich gwybodaeth bersonol hefo gynnwys:

- Eich Darparwr(wyr) cymorth cyfreithiol a gyfarwyddwyd, gan gynnwys unrhyw eiriolwr a gyfarwyddir gan gyfreithiwr cymorth cyfreithiol
- Awdurdodau cyhoeddus megis: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS), Gwasanaeth Cyllid a Thollau EM (HMRC), Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Swyddfa Gartref a Chofrestrfa Tir EM;
- Mudiadau sydd ddim yn gyhoeddus megis: Asiantaethau cyfeirio credyd fel Equifax a TransUnion ac ein partneriaid casglu dyled Advantis Credit Ltd;
- Os bydd gwybodaeth ffug neu anghywir yn cael eu darparu neu os bydd twyll wedi ei nodi, gall yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag asiantaethau atal twyll yn gyfreithlon i ganfod ag atal twyll gwyngalchu arian. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu data yn benodol â CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau at ddibenion atal twyll, ymchwilio ac erlyn; ag
- Lle mae dyled yn ddyledus i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data ag awdurdodau cyhoeddus fel CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid casglu dyledion fel Advantis Credit Ltd at ddibenion olrhain, casglu dyledion a gorfodi.

Gallwch gysylltu ein Swyddog Diogelu Data ar gyfer rhagor o wybodaeth ar y sefydliadau rydym yn gallu rhannu eich gwybodaeth bersonol hefo.

## Proseswyr Data

Gallwn gontract hefo proseswyr data trydydd parti i ddarparu e-bost, gweinyddiaeth system, rheolaeth dogfennau ag gwasanaethau storio TG. Bydd unrhyw ddata personol a rannwyd

hefo’r proseswyr data ar gyfer y pwrpas yma yn cael ei lywodraethu gan gymalau contract enghreifftiol o dan y ddeddf diogelu data.

Rydym yn contractio â Advantis Credit Ltd fel prosesydd data ar gyfer casglu a gorfodi cyfraniadau cymorth cyfreithiol troseddol. Mae unrhyw ddata personol a rennir gyda’r prosesydd data ar gyfer y pwrpas hwn yn cael ei lywodraethu gan gymalau contract enghreifftiol o dan gyfraith diogelu data.

## Awtomeiddio gwneud penderfyniadau

Nid ydym yn defnyddio prosesau gwneud penderfyniadau awtomatig yn unig o fewn y diffiniad yn Erthygl 22(1) o GDPR y DU. Bydd y penderfyniad terfynol ar gais am gymorth cyfreithiol neu hawliad am gostau mewn achos cymorth cyfreithiol bob amser yn cael ei wneud gan bod dynol. Gallai hwn fod yn aelod o’n staff, neu’n aelod o staff Darparwr cymorth cyfreithiol sy’n gweithredu dan awdurdod dirprwyedig gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

## Manylion am drosglwyddiadau amddiffyn ag i drydedd gwlad

Mae’n bosibl y bydd data personol yn cael ei drosglwyddo i leoliadau yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) lle bo’n ofynnol gan ein proseswyr data ar gyfer lletya, storio a diogel wrth gefn o’n gwasanaethau TG. Gwneir trosglwyddiadau o’r fath ar sail penderfyniadau digonolrwydd rhwng y DU a’r AEE yn unol ag Erthygl 45 o GDPR y DU.

## Cyfnod cadw ar gyfer gwybodaeth a gasglwyd

Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei gadw am hirach na fydd angen ar gyfer pwrpasau cyfreithlon y mae wedi'i gasglu a'i brosesu ar ei gyfer. Mae hyn i sicrhau nad yw’r wybodaeth a ddarparwyd yn dod yn anghywir, wedi ei ddyddio neu amherthnasol. Mae’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi gosod cyfnodau cadw ar gyfer y wybodaeth bersonol rydym ni’n casglu, a gall canfod ragor am hyn drwy ein gwefan:

https://www.gov.uk/government/publications/record-retention-and-disposition-schedules

Gallwch gysylltu ein Swyddog Diogelu Data ar gyfer cael copi o’n polisïau cadw ni.

Tra bydden ni’n cadw eich data personol, mi wnawn sicrhau ei fod yn cael ei gadw yn saff a’i ddiogelu rhag ei golli, camdriniaeth neu gyrchiad a datgeliad anawdurdodedig. Unwaith bydd y cyfnod cadw yn dod i ben, bydd eich data personol yn cael eu dileu a’i ddinistrio yn saff ac yn barhaol.

## Mynediad i wybodaeth bersonol

Gallwch ganfod os rydym yn dal unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch drwy wneud ‘Cais Mater Mynediad’. Os ydych eisiau gwneud y cais yma, os gwelwch yn dda, cysylltwch â:

Tîm Datgelu – Pwynt Post 10.25
Gweinidogaeth Cyfiawnder
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Data.access@justice.gov.uk

## Pan fydden ni’n gofyn am ddata personol

Rydym yn addo i adael chi wybod pam bod angen eich data personol ag dim ond i ofyn am eich data personol rydym angen ac nid casglu gwybodaeth ormodol neu amherthnasol.

Pan fydden ni’n casglu eich data personol, rydym ni hefo cyfrifoldebau, ac rydych chi hefo hawliau. Maent yn cynnwys:

- Gallwch ymneilltuo cydsyniad bryd bynnag, lle bo yn berthnasol;
- Gallwch gyflwyno cwyn hefo’r awdurdod arolygol;
- Bydden ni’n diogelu a sicrhau nad oes gan unrhyw un anawdurdodedig mynediad i’r data;
- Bydd eich data personol yn cael eu rhannu hefo sefydliadau eraill am bwrpasau cyfreithlon yn unig;
- Ni fydden ni’n dal ar y wybodaeth am gyfnod hirach na sydd yn angen;
- Ni fydden ni’n gwneud eich data personol ar gael ar gyfer pwrpasau hysbysebu heb eich caniatâd chi; ac
- Bydden ni’n ystyried eich cais i gywiro, rhoi’r gorau i brosesu neu ddileu eich data personol.

## Gallwch gael rhagor o fanylion ar:

- Cytundebau rydym ni hefo sefydliadau eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth;
- Amgylchiadau lle bydden ni’n pasio ymlaen eich gwybodaeth bersonol heb ddweud wrthoch chi, er enghraifft, i helpu gydag atal neu ganfod trosedd neu i gynhyrchu ystadegau anhysbys;
- Ein cyfarwyddiadau i staff ar sut i gasglu, defnyddio neu ddileu eich gwybodaeth bersonol;
- Sut rydym yn gwirio fod y wybodaeth a dalwyd gennym yn gywir ac yn gyfredol; ac
- Sut i wneud cwyn.

Ar gyfer ragor o wybodaeth am yr uchod, os gwelwch yn dda, cysylltwch hefo:

Y Swyddog Diogelu Data
Gweinidogaeth Cyfiawnder
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

dataprotection@justice.gov.uk

## Cwynion

Pan fydden ni'n gofyn am wybodaeth, bydden ni'n cydymffurfio hefo'r gyfraith. Os ysych yn ystyried bod eich gwybodaeth wedi eu delio hefo yn anghywir, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth am gyngor annibynnol ar ddiogelwch data. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Lôn Ddŵr
Wilmslow
Sir Gaer
SK9 5AF
Tel: 0303 123 1113
www.ico.org.uk

## Datganiad a chaniatâd gan y sawl sy'n cael y budd-dal

4 **Dylai'r sawl sy'n cael y budd-dal lofnodi'r datganiad os nad ef/hi sy'n gwneud y cais am gymorth cyfreithiol.**

- Rwy'n caniatáu i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ddatgelu gwybodaeth amdanaf i'r Adran Gwaith a Phensiynau a gwneud pa ymholiadau bynnag sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud yn siwr bod yr wybodaeth a roddir yn y cais hwn yn gywir. Caiff yr Adran Gwaith a Phensiynau wneud pa waith prosesu bynnag sy'n angenrheidiol i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn dal yn gywir ac y caiff rhoi gwybod i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am unrhyw newidiadau perthnasol.

- Rwy'n deall y caiff yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wneud unrhyw ymholiadau a chael gafael ar unrhyw wybodaeth y mae ei hangen arni i ymdrin â'r cais hwn. Rwy'n cytuno y caiff yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wirio'r ffeithiau hyn gydag asiantaethau eraill megis asiantaethau gwirio credyd, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Thollau a Chyllid EM ac rwy'n rhoi caniatâd i'r bobl/sefydliadau hynny ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani.

Llofnod: ______________________ Dyddiad: ___/___/___

## Datganiad a chaniatâd gan bartner

4 Os oes gennych chi bartner, bod manylion y partner wedi'u cynnwys ar y ffurflen hon, ond nad yw'r partner wedi llofnodi'r datganiad uchod (h.y. nid ef/hi sy'n cael y budd-dal), yna rhaid iddo/iddi lofnodi'r caniatâd isod:

- Mae'r datganiad hwn yn datgan y gwir am fy holl incwm ac asedau yn y Deyrnas Unedig a thramor

- Rwy'n deall y caiff yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wneud unrhyw ymholiadau a chael gafael ar unrhyw wybodaeth y mae ei hangen arni i ymdrin â'r cais hwn. Rwy'n cytuno y caiff yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wirio'r ffeithiau hyn gydag asiantaethau eraill megis asiantaethau gwirio credyd, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Thollau a Chyllid EM ac rwy'n rhoi caniatâd i'r bobl/sefydliadau hynny ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani.

Llofnod: ______________________ Dyddiad: ___/___/___

# Datganiad ac awdurdod gan yr ymgeisydd

**Gwiriwch eich bod wedi ateb pob cwestiwn, gan y ceir oedi wrth ystyried eich cais os na ddarperir yr holl wybodaeth y mae ei hangen. Darllenwch bob un o'r datganiadau canlynol yn ofalus.**

- Rwyf fi, fy mhartner, y sawl rwy'n gwneud cais drosto neu ei bartner yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Gredyd Gwarant neu Credyd Cynhwysol (Braenaru).
- Mae'r datganiad hwn yn datgan y gwir am fy holl incwm ac asedau yn y Deyrnas Unedig a thramor.
- Rwy'n deall y gall fy nghymorth cyfreithiol gael ei atal os canfyddir fy mod yn gwneud datganiad ffug bwriadol ynglyn â'r budd-dal rwy'n ei dderbyn, neu yn anonest yn hawlio budd-daliadau neu nad wyf yn hollol gymwys i dderbyn budd-daliadau h.y. fe'i diddymir, a'r adeg hynny byddaf innau'n dod yn gyfrifol am dalu'r holl gostau a gafwyd a gallaf gael fy erlyn.
- Rwy'n deall y bydd y Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn gwirio'n rheolaidd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau neu eu asiantau er mwyn cadarnhau fy mod i a/neu fy mhartner yn derbyn neu â hawl barhaus i dderbyn budd-daliadau.
- Rwy'n deall bod rhaid i mi roi gwybod i chi'n syth petai yna unrhyw newid yn fy amgylchiadau ariannol i neu'm partner yn cynnwys newid mewn budd-daliadau. Gallai methu â rhoi gwybod am newidiadau arwain at ddirymu fy nghymorth cyfreithiol ac fe allwn gael fy erlyn.
- Rwy'n deall y gall yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wneud unrhyw ymholiadau a chael unrhyw wybodaeth y mae ei angen i ddelio â'r cais hwn. Rwy'n cytuno y caiff yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wirio'r ffeithiau hyn ag eraill megis asiantaethau gwirio credyd, Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM, ac rwy'n awdurdodi'r bobl/sefydliadau hynny i ddarparu'r wybodaeth a ofynnwyd iddynt amdani.
- Rwy'n deall ei bod yn rhaid imi gydweithredu'n llawn ac ar unwaith gydag unrhyw ymholiad ynghylch fy amgylchiadau ariannol gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol; os na wna'i hynny, mae'n bosibl y caiff fy nhystysgrif cymorth cyfreithiol ei diddymu.
- Rwy'n deall nad yw cymorth cyfreithiol bob tro ar gael am ddim. Rwy'n deall y gall fod yn rhaid imi gyfrannu at fy nghostau cyfreithiol drwy ddefnyddio fy nghyfalaf
- Rwy'n deall y gall fod gofyn imi dalu'r tâl statudol os byddaf yn cadw neu'n ennill arian neu asedau o ganlyniad i'm hachos. Mae hyn yn golygu y gall fod yn rhaid imi ad-dalu fy nghostau cyfreithiol ar ddiwedd fy achos o'r arian neu'r asedau yr wyf wedi'u cadw neu wedi'u hennill, neu o'r costau a ddyfarnwyd imi.
- Rwy'n deall y caiff yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gofrestru pridiant sy'n dwyn llog yn erbyn fy eiddo.
- Po fwyaf o waith y bydd fy nghyfreithiwr yn ei wneud, mwyaf y gall fod yn rhaid imi ei dalu'n ôl.

**Yn awr, llofnodwch a dyddiwch y ffurflen a'i rhoi i'ch cyfreithiwr.**

Llofnod: ______________________________ Dyddiad: ____/____/____

# Rhestr Wirio Tystiolaeth

Mae'n rhaid anfon pob ffurflen asesu ariannol i'r ACC gyda thystiolaeth gefnogol ar gyfer yr amgylchiadau a ddatganwyd. Defnyddiwch y rhestr wirio ganlynol i sicrhau eich bod yn cyflwyno'r wybodaeth gywir gyda'r CIVMODD2.

**Os na fydd yr wybodaeth gywir yn cael ei chynnwys gall arwain at wrthod y cais neu oedi wrth i ni ofyn am ragor o dystiolaeth sy'n cefnogi'r asesiad modd.**

**Tudalen 2 Cymorth ariannol gan rywun arall**

☐ Os byddwch chi'n cael arian neu help gan gronfa ymddiriedolaeth, rhaid ichi anfon copi o'r weithred ymddiriedolaeth a'i roi ynghlwm wrth ffurflen CIVMODD2. Os na fyddwch chi'n anfon y copi hwn byddwn yn gofyn amdano a bydd oedi wrth brosesu'ch cais am gymorth cyfreithiol.

**Tudalen 3 Cyfalaf ac asedau eraill**

☐ **Datganiadau banc** - gwnewch yn siwr eich bod yn anfon datganiadau am dri mis ar gyfer pob cyfrif banc/cymdeithas adeiladu/ cyfrifon ariannol eraill sydd yn eich enw chi neu enw'ch partner. Mae angen i'r rhain fod ar gyfer y tri mis olynol cyn dyddiad cyflwyno'r cais. Rhaid i'r datganiadau hyn fod yn ddatganiadau gwreiddiol, yn llungopïau sydd wedi'u hardystio gan gyfreithiwr neu'n allbrint bancio ar y we (ar gyfer e-gyfrifon "di-bapur") sy'n dangos yr enw a rhif y cyfrif.

☐ Os oes gennych chi neu'ch partner fuddsoddiadau, anfonwch gopïau o'r tystysgrifau ar gyfer y rhain.

**Tudalen 6 Cyfalaf ac asedau eraill**

☐ Os ydych chi neu'ch partner wedi ateb yn gadarnhaol i unrhyw un o gwestiynau 12 i 16, gwnewch yn siwr fod y manylion llawn yn cael eu darparu yn y bwlch sydd ar dudalen 6

**Tudalen 6 Gorchymyn Methdaliad neu Rewi**

☐ Os ydych chi a/neu'ch partner wedi dweud eich bod yn destun gorchymyn methdaliad, gwnewch yn siwr bod copi o'r gorchymyn a'r atodlen asedau a dyledion diweddaraf ynghlwm wrth y ffurflen hon.

☐ Os ydych chi a/neu'ch partner wedi dweud eich bod yn destun gorchymyn rhewi, gwnewch yn siwr bod copi o'r gorchymyn gwreiddiol ynghlwm wrth y ffurflen hon. Os ydych chi wedi gwneud cais am ddiddymu neu amrywio'r gorchymyn, rhowch gopi o'r cais a'r gorchymyn diwygiedig, fel sy'n briodol.

**Tudalen 7 Hunangyflogaeth, partneriaethau a chyfarwyddiaethau**

☐ Os ydych chi neu'ch partner yn hunangyflogedig mewn partneriaeth busnes neu fel cyfarwyddwr cwmni, anfonwch:

- eich cyfrifon masnachu diweddaraf (gan gynnwys mantolen os oes gennych un)
- eich datganiad hunanasesu diweddaraf i Gyllid a Thollau EM
- datganiadau banc ar gyfer unrhyw gyfrif yr ydych chi a/neu'ch partner wedi'ch awdurdodi i'w llofnodi

Rhaid llenwi ffurflen CIVMODD2A ar gyfer pob masnach, proffesiwn neu alwedigaeth yr ydych chi neu'ch partner yn ymwneud â hwy a rhaid rhoi honno ynghlwm wrth y ffurflen CIVMODD2.

Os ydych chi neu'ch partner yn Bartner mewn busnes, rhaid llenwi ffurflen atodol CIVMODD2A ar gyfer pob partneriaeth rydych chi'n ymwneud â hi.

Os ydych chi neu'ch partner yn gyfranddaliwr mewn cwmni cyfyngedig preifat a/neu'n gyfarwyddwr cwmni, mae angen i gyfrifydd y cwmni lenwi ffurflen atodol CIVMODD1C ar gyfer pob cyfarwyddiaeth.

 © Hawlfraint y Goron